**Cadeirydd Pwyllgorau Ariannu Taith**

**Gwybodaeth gefndir**

Rhaglen gyfnewid ryngwladol ar gyfer dysgu yw Taith a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhoi cyllid i sefydliadau o bob sector addysg yng Nghymru- ysgolion, addysg ieuenctid, addysg oedolion, addysg belach, addysg a hyfforddiant galwedigaethol ac addysg uwch- i ymgymryd â gweithgareddau cyfnewid rhyngwladol ar gyfer dysgu. Nod Taith yw ariannu cyfleoedd cyfnewid addysgol rhyngwladol cynhwysol a hygyrch i ddysgwyr a staff ledled Cymru, gyda chyfleoedd i ddysgwyr a staff rhyngwladol ymweld â phartneriaid yng Nghymru.

Cyflwynwyd Taith drwy International Learning Exchange Programme (ILEP) Ltd, is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Prifysgol Caerdydd.

Diben Taith yw creu cyfleoedd sy'n newid bywyd i ddysgwyr a phobl ifanc ledled Cymru trwy gyfleoedd cyfnewid rhyngwladol ar gyfer dysgu. Cenhadaeth y rhaglen yw ariannu cyfleoedd cyfnewid addysgol rhyngwladol sy'n gynhwysol ac yn hygyrch i ddysgwyr a staff ledled Cymru, gan roi cyfleoedd i ddysgwyr a staff rhyngwladol ymweld â phartneriaid yng Nghymru.

Yn benodol, mae Taith yn annog cyfranogiad gan bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol - gan gynnwys pobl o gefndiroedd difreintiedig, cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar dri phrif amcan, sy'n canolbwyntio ar effaith, safon uchel ac arloesedd addysg. Caiff y rhain eu cyfleu'n llawn yn strategaeth y rhaglen ar ei newydd wedd.

Mae cyllid Taith yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng dau lwybr:

- Llwybr 1: Symudedd cyfranogwyr - symudedd corfforol a rhithwir allanol a mewnol.
- Llwybr 2: Partneriaethau a chydweithredu strategol - prosiectau cydweithredu rhyngwladol a arweinir gan sefydliadau yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Taith.

**Crynodeb o'r Swydd**

Mae'r Cadeirydd yn cadeirio Pwyllgorau Ariannu Taith. Mae'r swydd yn goruchwylio'r broses asesu a'r argymhellion ariannu a wnaed gan y Pwyllgorau. Bydd gan y Cadeirydd gyfrifoldeb dros sicrhau bod y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor yn bodloni'r safonau uniondeb uchaf er mwyn sicrhau defnydd teg o arian cyhoeddus, a bod y penderfyniadau'n cael eu selio ar feini prawf gwrthrychol a chyfiawnadwy, gan fodloni safonau a nodir yng Nghylch Gorchwyl Pwyllgor Ariannu Taith. Mae'r

Pwyllgor Ariannu yn cael ei reoli gan Ysgrifenyddiaeth Weithredol y Rhaglen Taith sy'n darparu'r holl gymorth sydd ei angen ar y Cadeirydd i hwyluso ei rôl.

Bydd holl aelodau'r Pwyllgor, gan gynnwys y Cadeirydd, yn derbyn papurau cyn cyfarfodydd y Pwyllgor Ariannu, a bydd disgwyl iddynt oll fod wedi darllen yr holl gynigion i'w hystyried. Bydd disgwyl i'r Cadeirydd i sicrhau bod yr holl eitemau'n cael eu trafod yn ddigonol er mwyn cytuno ar ganlyniad pob un cynnig yn unol â'r meini prawf asesu.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor, bydd disgwyl i chi gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, gan sicrhau bod gofynion y Pwyllgor wedi'u bodloni.

Yn ogystal, bydd angen i'r Cadeirydd fynychu cyfarfodydd Bwrdd International Learning Exchange Partnership Limited i gyflwyno argymhellion Pwyllgorau Ariannu Taith. Gallai fod cyfrifoldebau eraill yn gysylltiedig â'r rôl.

**Prif Gyfrifoldebau**
**Paratoi ar gyfer y Pwyllgorau Ariannu o ran yr alwad am gyllid ar gyfer y Llwybr perthnasol**

- Darllen dogfennaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r ceisiadau ar gyfer yr alwad am gyllid ar gyfer y Llwybr perthnasol
- Meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Llwybr perthnasol a'i ddiben
- Meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o Taith sy'n berthnasol i Lwybr y galwadau am gyllid

**Cadeirio Cyfarfodydd y Pwyllgor Ariannu**

- Darllen a chyfrannu at ddogfennaeth cyfarfodydd a baratowyd gan Taith ymlaen llaw
- Sicrhau bod cyfarfodydd Pwyllgor Ariannu Taith yn cadw at yr amser
- Sicrhau y cedwir at weithdrefnau a phrotocolau Taith (gan geisio arweiniad gan Weithrediaeth y Rhaglen Taith pan fo angen)
- Hwyluso cyfranogiad gweithredol holl aelodau Pwyllgor Ariannu Taith er mwyn gallu gwneud penderfyniadau cadarn a diduedd ar geisiadau
- Ceisio eglurhad o farn Pwyllgor Ariannu Taith a sicrhau y ceir trafodaeth briodol cyn bod y Pwyllgor yn cytuno ar argymhelliad ar gyfer pob cais
- Sicrhau bod Weithrediaeth y Rhaglen Taith yn derbyn yr adborth angenrheidiol ar gyfer ceisiadau gan Bwyllgorau Ariannu Taith
- Darparu cymeradwyaeth derfynol ar gyfer cofnodion, adborth ac amodau dyfarnu, lle bo angen
- Argymell neu roi cyngor ar gamau gweithredu ynghylch materion sy'n codi ar ôl y cyfarfodydd penderfynu (e.e. ar ddyfarniadau ag amodau)

**Cyfrifoldebau Taith Ehangach**

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd perthnasol fel y bo angen

- Cyfrannu at werthuso dyfarniadau rhaglen Taith fel y bo angen

**Manyleb Person:**

**Gwybodaeth, rhinweddau a sgiliau:**

**Hanfodol**
- Gwybodaeth a phrofiad o raglenni a phrosiectau cyfnewid rhyngwladol
- Gwybodaeth am ddatblygiadau cyfredol ym maes addysg ryngwladol
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol ac yn effeithlon
- Sgiliau trafod hyderus
- Arfer cyfrinachedd wrth drin gwybodaeth gyfrinachol
- Ymrwymiad i hyrwyddo arferion teg a chynhwysol
- Gallu gweithio yn golegol

**Profiad:**

**Hanfodol**
- Cefndir ym maes rhaglenni addysg rhyngwladol
- Profiad amlwg o gymryd rhan weithredol mewn pwyllgorau ariannu
- Hanes amlwg o arweinyddiaeth uwch mewn addysg ryngwladol

**Dymunol**
- Profiad o gadeirio Pwyllgor Ariannu
- Dealltwriaeth o'r rhaglen Taith
- Hyddysg mewn defnyddio Microsoft Teams

**Amodau gwasanaeth**

**Tâl:** Hyd at £2,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol, i'w dalu i'r unigolyn, am isafswm o 8 diwrnod o wasanaeth yn seiliedig ar ddwy alwad am gyllid y flwyddyn.

Bydd Taith yn ad-dalu'r ymgeisydd llwyddiannus am gostau teithio a chynhaliaeth a godir wrth gynnal dyletswyddau'r Cadeirydd, er y rhagwelir y bydd yr holl waith sy'n gysylltiedig â'r swydd yn cael ei gynnal o bell dros Microsoft Teams.

I wneud cais, anfonwch e-bost sy'n cynnwys:
- eich CV
- llythyr eglurhaol heb fod yn fwy na 2 ochr A4 yn esbonio eich cymhelliant a sut mae eich profiad yn bodloni'r gofynion

at swyddfa@taith.cymru gyda'r llinell pwnc: **Cais am Gadeirydd Pwyllgorau Ariannu Taith**. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 12pm, dydd Llun 13 Tachwedd 2023**.**